# Ysgol Feddygaeth Prifysgol Keele
# Cymynrodd ar gyfer Archwiliad Anatomegol
# Deddf Meinweoedd Dynol 2004

**Gwybodaeth Gyffredinol am Ganiatâd**
Mae angen parhaol ar y Brifysgol am gyrff dynol at ddibenion addysgu, hyfforddi ac ymchwil ym meysydd meddygaeth a gwyddoniaeth, ac mae'n ddyledus iawn i'r unigolion cymwynasgar sy'n cymynroddi eu cyrff yn y modd hwn. Mae'r Cyfleuster Anatomeg yn Ysgol Feddygaeth Prifysgol Keele wedi ei Drwyddedu o dan y Ddeddf Meinweoedd Dynol (2004) ac yn cael ei reoleiddio gan yr Awdurdod Meinweoedd Dynol (HTA) i gynnal gweithdrefnau o'r fath.

A bod yn fanwl gywir, ni chaiff neb fod yn berchen ar ei gorff marw ei hun yn ôl y gyfraith, ac felly, yn ôl y gyfraith, ni chaiff neb ei gymynroddi na'i roi. Fodd bynnag, os mynegodd person marw ddymuniad yn ystod ei fywyd i roi ei gorff ar gyfer addysgu, hyfforddi ac ymchwil, neu i roi organau, anaml y byddai'r perthnasau'n methu â chyflawni'r dymuniad hwnnw. Os ydych chi'n dymuno cymynroddi eich corff ar gyfer addysgu ac ymchwil a/neu roi eich organau ar gyfer eu trawsblannu, mae'n bwysig i chi drafod eich dymuniadau gyda'ch perthnasau neu eich ysgutor(ion).

**Canllawiau ar gyfer y Rhoddwr sy'n rhoi Caniatâd**
Diolch i chi am fynegi eich dymuniad i roi eich corff i Ysgol Feddygaeth Prifysgol Keele. Gwerthfawrogir eich gweithred hael yn fawr iawn. Er mwyn i chi gymynroddi eich corff ar gyfer archwiliad anatomegol, rhaid i chi lenwi a llofnodi'r ffurflenni amgaeedig yn ddyblyg yng ngŵydd tyst. Dychwelwch un copi (**copi Keele**) i'r cyfeiriad isod.

Bequeathals Office
Anatomy Facility
School of Medicine
Keele University
Staffordshire ST5 5BG

Cadwch weddill y ddogfen gyda'ch ewyllys neu eich papurau personol. Mae'n ddoeth rhoi gwybod i'ch perthnasau, eich ysgutor a'ch meddyg am eich bwriad. Gallwch dynnu eich caniatâd yn ôl ar unrhyw bryd. Os penderfynwch nad ydych bellach yn dymuno rhoi eich corff, cysylltwch â'r Swyddfa Gymynroddion i wneud cais am ddileu eich enw o'n ffeiliau ni.

**Canllawiau ar gyfer y Perthynas Agosaf/Ysgutorion**
Dylai eich ysgutor neu eich perthynas agosaf ffonio'r ysgol feddygol mor fuan â phosibl wedi'r farwolaeth. I ddechrau, ffoniwch yr Ysgol Feddygaeth ar 01782 734690 neu 733936. Os derbynnir y cymynrodd (ac mae'n bosibl na fydd modd gwneud hynny), bydd y trefnydd angladdau a gyflogir gan yr ysgol feddygol yn cael cyfarwyddyd i wneud yr holl drefniadau ar gyfer symud y corff. Rhaid cofrestru'r farwolaeth gyda'r Cofrestrydd lleol a dylid cael oddi wrtho Dystysgrif Claddu neu Amlosgi a chopi o'r Dystysgrif Cofrestru Marwolaeth.
Os bydd arnoch angen ffonio y tu allan i oriau swyddfa i'n hysbysu am y brofedigaeth, cysylltwch â'r canlynol: C. McGough a'i Fab, Trefnwyr Angladdau, ar 01782 834300 a byddant hwy yn rhoi cyngor a chymorth i chi.

Os yw'r corff yn gorwedd mewn ysbyty, dylid ei gadw o dan amodau rheweiddiedig yng nghorffdy'r ysbyty nes y bydd ein swyddfa'n ailagor ac yn gallu delio â'r rhodd. Mae'r cyfnod amser hwyaf ar gyfer cadw'r corff yn dibynnu ar yr amodau rheweiddio. Os yw'r corff gartref neu mewn cartref nyrsio, dylai gael ei symud gan drefnydd angladdau i Gapel Gorffwys a'i gadw o dan amodau rheweiddio os yw'n bosibl. Os nad oes dull rheweiddio ar gael, y cyfnod amser hwyaf ar gyfer ei storio felly yw oddeutu tri diwrnod. Mae'n bwysig bod y perthnasau'n deall bod rhaid i unrhyw gostau cludiant a chostau trefnwyr angladdau ac eithrio trefnydd angladdau (a restrir uchod) sydd dan gontract i'r brifysgol gael eu hysgwyddo gan y perthynas agosaf neu ystad y rhoddwr. Mae rhagor o wybodaeth ar gyfer y perthynas agosaf neu'r ysgutorion ar gael ar ddalen ar wahân (Ffurflen KF005).
Yn ystod y prif wyliau cyhoeddus o'r Nadolig i'r Flwyddyn Newydd a phenwythnos y Pasg, bydd yr Ysgol Feddygaeth ar gau, ac efallai na fydd yn gallu derbyn cyrff. Yn ystod y cyfnodau hyn, cynghorir y perthynas agosaf i wneud trefniadau ar gyfer angladd.

**Archwiliad Anatomegol, Hyfforddiant ac Ymchwil ynglŷn ag anhwylderau, neu weithrediad, y corff dynol.**

Mae'r Sefydliad Trwyddedig HTA, sy'n derbyn y corff, yn gyfrifol am ei gadw (fel arfer, trwy ei falmeiddio neu ei reweiddio), ei storio yn ddiogel a chyfrinachol, ac am ei archwilio tan yr amser y bydd angen ei amlosgi neu ei gladdu.
Caiff unrhyw ddefnydd parchus ohono ar gyfer addysg, hyfforddiant ac ymchwil feddygol ynglŷn ag anhwylderau, neu weithrediad, y corff dynol a all ddigwydd dros gyfnod o un flwyddyn i sawl blwyddyn, ei oruchwylio gan staff cymwysedig sy'n gweithio o dan amodau'r drwydded.
Rydym yn gweithio gyda darparwyr cyrsiau allanol sy'n defnyddio deunyddiau a roddwyd. Dim ond ar gyfer cyrsiau a gymeradwywyd, lle y gellir dangos bod budd meddygol i'r gymdeithas, y mae hyn. Mae'r cyrsiau hyn yn cael eu rhedeg gan Lawfeddygon a Meddygon arbenigol iawn er mwyn gwella llawdriniaethau.
Rydym yn cydweithredu hefyd ag Ysgolion Meddygol eraill yng Nghymru a Gorllewin Canolbarth Lloegr er mwyn sicrhau bod y rhoddion o fudd ledled yr ardal lle y mae ein rhoddwyr yn preswylio.
Codir ffioedd yn y naill achos a'r llall i dalu costau cludo, gweinyddu a pharatoi.

**Gweithdrefnau Terfynol**
Adeg cwblhau'r archwiliad anatomegol caiff y corff ac unrhyw rannau ohono a dynnwyd oddi wrtho (ar wahân i'r rhai y cafwyd eich caniatâd i'w cadw) eu rhoi yn ôl ynghyd i orffwys yn unol â'ch dymuniadau. Mae'r Ysgol Feddygaeth yn talu am wasanaeth angladd ac amlosgiad safonol ac urddasol yn ardal leol y Brifysgol. Fodd bynnag, pan gaiff y rhodd o'ch corff ei dderbyn, gall y perthynas agosaf neu'r ysgutorion ofyn am gael claddu neu amlosgi preifat. Mewn achos felly, daw'r holl gostau sy'n gysylltiedig â threfniadau o'r fath yn gyfrifoldeb y perthynas agosaf neu'r ysgutorion.

Yn nes ymlaen gellir cael gwared yn urddasol ar y rhannau o'r corff y cafwyd caniatâd i'w cadw yn unol â chodau ymarfer yr Awdurdod Meinweoedd Dynol.

**Canllawiau ar gyfer y Rhoddwyr sy'n llenwi'r ffurflenni caniatâd hyn (Darllenwch yr adran hon yn ofalus, gan ei bod yn egluro beth y cewch roi caniatâd ar ei gyfer yn Opsiynau 1-4 a'r dewisiadau ar gyfer Opsiwn 5).**

**Hyd Amser (Opsiynau 1 a 2):** Nid yw'r gyfraith yn cyfyngu ar hyd yr amser y caniateir i gorff a roddwyd gael ei ddefnyddio gan y sefydliad sy'n ei dderbyn, er, yn ymarferol, y mae corff yn cael ei gadw fel arfer am oddeutu 1-3 blynedd. Serch hynny, os dymunwch gyfyngu ar yr amser y mae'ch corff yn cael ei ddefnyddio, mae gennych gyfle i wneud hynny yn Adran 2 o'r ffurflen ganiatâd.

**Rhannau o'r Corff (Opsiynau 1 a 2):** Mae'r Brifysgol yn ei chael hi'n werthfawr iawn i gadw am gyfnod hwy organau neu rannau o'r corff er mwyn parhau i'w hastudio a'u harchwilio, os yw caniatâd wedi ei roi ar gyfer hynny.

**Delweddau (Opsiwn 3):** Gall fod yn ddefnyddiol i'r sefydliad sy'n derbyn y corff baratoi delweddau o rannau o'ch corff ar gyfer addysgu, hyfforddi neu ymchwil ynglŷn ag anhwylderau, neu weithrediad, y corff dynol. Fe'ch sicrheir, os rhoddir caniatâd i baratoi delweddau, na fyddai modd eich adnabod yn y delweddau hyn.

**Cytundeb i'w ddefnyddio mewn Ysgolion Meddygol a Chanolfannau Hyfforddiant Llawfeddygol eraill y DU (Opsiwn 4):** Rydym yn cydweithredu hefyd ag Ysgolion Meddygol a Chanolfannau Hyfforddiant Llawfeddygol eraill y DU i sicrhau y bydd y rhoddion o'r budd mwyaf posibl.

**Trefniadau Angladd (Opsiwn 5):** Darllenwch yr adran 'Gweithdrefnau Terfynol' uchod a nodwch eich dewis. Fel arall, cewch adael yr opsiwn hwn yn wag er mwyn i'ch perthnasau neu'ch ysgutorion benderfynu os caiff eich corff ei dderbyn.

**Deiliaid cardiau rhoddwyr organau:** Os ydych yn cario cerdyn rhoddwr, byddwch yn dal yn cael cymynroddi eich corff. Er hynny, os bydd eich organau wedi eu tynnu ar gyfer eu trawsblannu adeg eich marwolaeth, byddai hynny'n ein hatal rhag derbyn y rhodd. Fodd bynnag, cewch roi cornbilennau eich llygaid a dal i roi eich corff.

**Pwysig:** Gwnewch yn siŵr fod y ffurflen wedi ei llofnodi a'i dyddio yng ngŵydd eich tyst. Os na wneir hyn, ni fydd yn darparu caniatâd dilys ar gyfer derbyn eich corff ar gyfer Archwiliad Anatomegol, Addysg, Hyfforddiant ac Ymchwil. **<u>Gwnewch yn siŵr fod dyddiadau'r ddau lofnod yr un fath.</u>**

**Cyfyngiadau ar Dderbyn Cymynroddion**

**Ni ellir rhoi unrhyw warant y caiff cymynrodd ei dderbyn.** Ymhlith ystyriaethau eraill, gallai achos y farwolaeth ei hun, archwiliad post mortem, neu dynnu organau ar gyfer eu trawsblannu fod wedi gwneud y corff yn anaddas ar gyfer archwiliad anatomegol, sydd â'r nod o astudio strwythur normal y corff. Os na ellir derbyn y rhodd, y perthynas agosaf neu'r ysgutorion sy'n gyfrifol am gladdu neu amlosgi'r corff. Nid oes terfyn oedran uchaf ar gyfer rhoi corff.

Er nad yw'r rhestr ganlynol yn derfynol, mae'n **GANLLAW** ynghylch rhai o'r rhesymau dros *beidio* â derbyn cymynrodd, ond mae bob amser yn ddoeth cysylltu â'r staff Anatomeg (ffôn 01782 734690 neu 733936) beth bynnag, a byddant hwy yn gallu gwneud y penderfyniad terfynol.

**A) Sefyllfaoedd lle y byddai derbyniad yn annhebygol:**

1. **Archwiliad post mortem:**
2. **Haint trosglwyddadwy**: er enghraifft, Hepatitis, HIV, Septisemia, Twbercwlosis (TB), COVID.
3. **Dementia nad yw oherwydd Henaint/Clefyd Alzheimer:** o bosibl o darddiad heintus.
4. **Clwyf Melyn**: o darddiad heintus.
5. **Asgites. (Ddim yn dderbyniol).**
6. **Methiant Arennol Aciwt neu Gronig.**

**B) Sefyllfaoedd a allant, os ydynt yn ddifrifol neu'n lluosog, fod yn rheswm dros beidio â derbyn:**

1. **MS (Sglerosis Ymledol)**: (Os dymunwch roi eich ymennydd ar gyfer ymchwil i MS, cysylltwch â Banc Meinweoedd MS ar 020 8846 7324)
2. **Stoma Artiffisial**: er enghraifft, ileostomi, colostomi, gastrostomi.
3. **Briwiau gorwedd neu friwiau faricos**: gofynnir i'r Meddyg neu'r Nyrs ynghylch cyflwr croen y rhoddwr, ac yn benodol am bresenoldeb, nifer a difrifoldeb briwiau gorwedd.
4. **Clefyd fasgwlaidd ymylol**: byddai clefyd fasgwlaidd difrifol aelodau'r corff a diabetes difrifol gydag arwyddion o glefyd fasgwlaidd yn annerbyniol.
5. **Canser wedi ymledu:**
6. **Oedema ymylol**: achosion difrifol
7. **Trychiad**: segment mawr o un neu ragor o aelodau.
8. **Anffurfiad arthritig**: anffurfiad difrifol o'r cymalau a'r asgwrn cefn.
9. **Pwysau neu daldra gormodol**:
10. **Organau a roddwyd ar gyfer eu trawsblannu: (gweler uchod)** fodd bynnag, gallwch roi cornbilennau eich llygaid a dal i roi eich corff ar gyfer archwiliad anatomegol. I gael cerdyn rhoddwr, cysylltwch â'r Gofrestr Rhoddwyr Organau ar 0300 123 2323, neu Fanc Llygaid Moorfield ar 020 7253 1199.

**Os nad yw'r corff yn addas ar gyfer archwiliad anatomegol, rhoddir gwybod i'r perthnasau neu'r ysgutorion mor fuan â phosibl er mwyn iddynt allu gwneud trefniadau ar gyfer angladd.**

***Unigolyn Dynodedig*** ***Diweddarwyd February, 2022***

**Sut y byddwn yn defnyddio data personol**

Prifysgol Keele fydd y rheolydd data sy'n gyfrifol am ofalu am y data personol yr ydym yn eu casglu drwy'r 'Ffurflen Ganiatâd' ac am eu prosesu. Byddwn yn prosesu'r data hyn i weinyddu'ch cais am rodd fel rhan o dasg gyhoeddus y Brifysgol i ddarparu cyfleusterau addysgu, dysgu ac ymchwilio, ac fel rhan o'n trwydded oddi wrth yr Awdurdod Meinweoedd Dynol. Caiff y data hyn eu storio mewn cronfa ddata ddiogel ar weinyddion cyfrifiadurol y Brifysgol ac ni chânt eu rhannu ag unrhyw sefydliad arall oni fydd yn ofynnol i ni wneud hynny yn ôl y gyfraith.
Byddwn yn cadw'r data hyn yn unol â chyfarwyddebau'r Rheoliadau Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR).
Os na fyddwn yn gallu derbyn rhodd neu os byddwch chi'n tynnu'ch rhodd yn ôl, byddwn yn dileu'r wybodaeth yn unol â hynny.
Mae gennych nifer o hawliau o ran sut y byddwn yn prosesu'ch data personol. Mae rhagor o wybodaeth am yr hawliau hyn ar gael o Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn www.ico.org.uk, ac ar wefan y Brifysgol yn https://www.keele.ac.uk/informationgovernance/. Yn achos unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r broses gymynroddi, cysylltwch â'r Swyddfa Anatomeg (ffôn 01782 734690 neu 01782 733936). Os oes gennych unrhyw bryderon ynglŷn â sut yr ydym yn delio â'ch data, cysylltwch â'r Swyddog Diogelu Data yn governance.dpo@keele.ac.uk

Keele University

Bequeathals Office
Anatomy Facility
Medical School
Keele University
Staffordshire
ST5 5BG

FFURFLEN GANIATÂD –
# COPI RHODDWR

## Deddf Meinweoedd Dynol 2004

**Rhan A: i'w llenwi gan y person sy'n rhoi'r rhodd**
**Llenwch mewn PRIFLYTHRENNAU BLOC**

Teitl ______________ Cyfenw/enw teuluol ______________________________

Enw(au) cyntaf ______________________________

Cyfeiriad ______________________________

Cod post ______________ Rhif ffôn ______________ Dyddiad geni ______________

Crefydd/grŵp ffydd (os yw'n gymwys) ______________________________

- **DYMUNAF ROI FY NGHORFF AR ÔL FY MARWOLAETH. DEALLAF Y GELLIR EI DDEFNYDDIO AR GYFER ARCHWILIAD ANATOMEGOL, ADDYSG, HYFFORDDIANT AC YMCHWIL YNGLŶN AG ANHWYLDERAU, NEU WEITHREDIAD, Y CORFF DYNOL.**

**Ticiwch fel y bo'n briodol**

1. ☐ **Nid wyf yn gosod unrhyw gyfyngiadau ar hyd yr amser y caiff fy nghorff neu rannau o'm corff gael eu cadw** (os ticiwch y blwch hwn, ewch yn syth i opsiwn 3; os na, ewch i opsiwn 2).

Ar gyfer opsiwn 2, dewiswch naill ai a. neu b. ac ewch wedyn i opsiwn 3.

2. **Gall fy nghorff gael ei gadw am uchafswm o 3 blynedd yn unig.**
   a. ☐ Gall rhannau o'm corff gael eu cadw am gyfnod hwy na 3 blynedd
   **NEU**
   b. ☐ Ni chaiff unrhyw ran o'm corff gael ei chadw am gyfnod hwy na 3 blynedd

3. ☐ **Cytunaf i ddelweddau o'm corff neu rannau o'm corff gael eu defnyddio. Deallaf y byddant yn cael eu defnyddio ar gyfer addysg, hyfforddiant ac ymchwil ynglŷn ag anhwylderau, neu weithrediad, y corff dynol ac na fyddai modd f'adnabod yn y delweddau hyn.**

4. ☐ **Cytunaf i'm corff gael ei ddefnyddio mewn Ysgolion Meddygol a Chanolfannau Hyfforddiant Llawfeddygol eraill yn y Deyrnas Unedig ar gyfer archwiliad anatomegol, addysg, hyfforddiant ac ymchwil ynglŷn ag anhwylderau, neu weithrediad, y corff dynol.**

5. **Nodwch eich dewis o drefniadau angladd:**

   **a.** ☐ **Amlosgiad a drefnir gan y Brifysgol**

   Hysbysu perthynas neu berson arall? ☐ IE ☐ NA

   I'ch llwch gael: ☐ ei gladdu yn yr Ardd Orffwys? ☐ ei anfon at berthynas?

   Enw perthynas a rhif ffôn (os yw'n gymwys) ______________________________

   ______________________________

   **b.** ☐ **Trefniadau amlosgi neu gladdu i'w gwneud gan y perthynas agosaf neu'r ysgutorion**

**Cadarnhaf fy mod wedi darllen a deall y wybodaeth sydd yn y llyfryn cymynrodd Keele hwn.**
**Rwy'n deall nad oes unrhyw sicrwydd y bydd fy nghorff yn cael ei dderbyn.**
**Rwy'n deall y bydd fy nata yn cael ei storio.**
**Adeg fy marwolaeth rwy'n cytuno i wybodaeth o'm hanes meddygol gael ei roi i staff Ysgol Feddygol Keele i'w helpu i ganfod a yw fy nghorff yn addas i gael ei dderbyn.**
**Ar adeg fy marwolaeth rwy'n cydsynio i wybodaeth o'm hanes meddygol gael ei rhoi i Keele Staff yr Ysgol Feddygaeth a chaniatáu iddynt gynnal profion gwaed a swab ar gyfer clefydau trosglwyddadwy i helpu i ganfod addasrwydd fy nghorff i'w dderbyn.**

**Llofnod y Rhoddwr** ______________________ **Dyddiad** ______________

**Rhan B: Datganiad tyst (llofnod y perthynas agosaf, ysgutor, meddyg teulu, cyfaill, etc.)**

Cadarnhaf fy mod wedi tystio i ______________________ (Nodwch enw'r rhoddwr) lenwi rhannau A a B o'r ffurflen hon gan gynnwys ei (l)lofnod

Cyfenw/enw teuluol y tyst ______________________ Enw(au) cyntaf ______________

Cyfeiriad y tyst ______________________________

Cod post ____________________ Perthynas â'r rhoddwr ________________________________________________

**Llofnod y Tyst** ______________________________ **Dyddiad** _________________________

**Gwnewch yn siŵr fod y dyddiadau yr un fath ar gyfer y rhoddwr a'r tyst**

***Llenwch y ddwy ffurflen a chadw'r ffurflen hon gyda'ch papurau cyfreithiol a dychwelwch y llall yn yr amlen amgaeedig. (Gweler y nodiadau uchod ynghylch data personol )***